Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

# Cyfarfod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

**Cofnodion y cyfarfod**

**Dyddiad:** 8 Ionawr 2026 **Amser:** 09.30am Cyfarfod Teams

**Yn bresennol:**

- Tony Young (Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Lin Slater (Is-gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Desmond Mannion (Aelod o'r Bwrdd)
- Artie Meakin (Aelod o'r Bwrdd)
- Dave Street (Aelod o'r Bwrdd)
- John Williams (Aelod o'r Bwrdd)
- Emma Logan (Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cenedlaethol)
- Taryn Stephens (Llywodraeth Cymru)

---

**1. Croeso ac ymddiheuriadau:** Dechreuodd y cyfarfod gyda chyfarchion, a chafodd presenoldeb ei gadarnhau.

**2. Datgan gwrthdaro o ran buddiannau:** Bu'r Bwrdd yn trafod y broses flynyddol a pharhaus ar gyfer datgan gwrthdaro o ran buddiannau. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa am eu cyfrifoldebau, a chytunwyd i ffurfioli'r protocol a'i rannu â Llywodraeth Cymru.

**3. Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol:** Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu hailddosbarthu, a gwnaed cais i hysbysu'r ysgrifenyddiaeth bod y cofnodion wedi'u cymeradwyo fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Cafodd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol eu trafod a'u cydnabod.

**4. Statws yr Adroddiad Blynyddol o ran ei gyhoeddi**

Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddiaeth fod ymateb/cyngor wedi dod i law oddi wrth gynrychiolydd Llywodraeth Cymru ac y byddai gwybodaeth ategol ychwanegol yn cael ei rhannu ag aelodau'r Bwrdd.

Cytunodd y Bwrdd y dylai'r Adroddiad Blynyddol aros fel y mae oni nodwyd gwallau ffeithiol.

**5. Diweddariad ynghylch Strategaeth Gyfathrebu'r Bwrdd Cenedlaethol a diwygio'r wefan**

Nododd yr Ysgrifenyddiaeth fod gwaith wedi dechrau gyda'r darparwr allanol ar ddiwygio'r wefan, a oedd yn cynnwys ymgysylltu â'r prif sefydliadau partner er mwyn hybu trafodaeth a chael eu mewnbwn ynghylch cynnwys y wefan. Roedd cyfarfod â rhanddeiliaid er mwyn cael gwybod am gynnydd wedi'i drefnu ar gyfer yr un prynhawn.

Bu'r Bwrdd yn trafod goblygiadau o ran y gyllideb. Nododd bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw arian sydd heb ei neilltuo'n cael ei ailgyfeirio'n effeithiol, a allai gynnwys ei wario ar dendr yn y dyfodol ar gyfer y wefan ac ar ofynion tymor hwy o ran datblygu'r wefan.

**6. Cynnydd o ran adolygu data ystadegol – Prifysgol Metropolitan Manceinion**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ynghylch adolygiad allanol sylweddol o ystadegau Llywodraeth Cymru ar amddiffyn plant, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- yr heriau o ran darganfod ble y mae unrhyw ddata sydd wedi'i gyhoeddi a sut mae ei ddefnyddio, oherwydd newidiadau i blatfformau ac oherwydd bod lleoliadau cyhoeddi'r data ar wasgar;
- yr angen am ddulliau gwell o gyflwyno data (e.e. canrannau/cyfraddau ar gyfer nifer benodol o bobl, yn hytrach na rhifau crai); a
- gwerth gweld data fel "cyfres" gydlynus er mwyn ei gwneud yn bosibl deall ac ymholi'n ystyrlon.

Bu'r Bwrdd yn trafod yr amrywiadau sylweddol rhwng awdurdodau lleol, a nododd bwysigrwydd:

- osgoi deongliadau sydd ar ffurf "tablau cynghrair".
- sicrhau bod data'n cael ei osod yng nghyd-destun naratif; a
- hybu sgyrsiau dysgu diogel ac adeiladol yn hytrach na chymariaethau sy'n cosbi.

Cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r Bwrdd, pan fydd yr adolygiad drafft wedi'i gwblhau a'i rannu, gynnal sesiwn bwrpasol er mwyn dod i gasgliadau a chytuno ar ddull o ymgysylltu'n adeiladol â Llywodraeth Cymru.

**7. Diweddariad ynghylch yr Adolygiad o Weithdrefnau Adran 5**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ynghylch y gwaith cenedlaethol ar weithdrefnau, sy'n ymwneud ag Adran 5 (swyddi cyfrifol/rheoli honiadau), a oedd yn nodi bod y gweithdrefnau diwygiedig wedi cael eu hadolygu'n fanwl a bod disgwyl iddynt gael eu cwblhau a'u cyhoeddi erbyn mis Mawrth.

Nododd y Bwrdd werth “cyfeiryddion ymarfer” cysylltiedig a dogfennau ategol er mwyn gwella gallu ymarferwyr i’w defnyddio, gan gydnabod bod arweiniad cynhwysfawr yn gallu bod yn hirfaith ac yn llai hygyrch heb ddulliau cyfeirio ymarferol.

Bu’r Bwrdd hefyd yn trafod materion sy’n ymwneud â llywodraethiant ac atebolrwydd, a nodwyd drwy ddysgu cenedlaethol diweddar, a oedd yn cynnwys pwysigrwydd eglurder ynghylch gwneud penderfyniadau, uwchgyfeirio, goruchwylio, a disgwyliadau o ran cadw cofnodion.

**8. Adolygiad ym maes addysg o gyrff llywodraethu ysgolion**

Nododd y Bwrdd yr adolygiad cenedlaethol sydd ar ddod o rolau a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru, a oedd yn cynnwys sefydlu grŵp cyfeirio eang. Cytunodd y Bwrdd y byddai cael cynrychiolaeth o’r Bwrdd Cenedlaethol yn fuddiol, yn amodol ar gadarnhau’r cylch gwaith a’r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd.

**9. Archwiliadau meddygol amddiffyn oedolion**

Nododd y Bwrdd wahoddiad i drafodaeth ford gron a fyddai’n canolbwyntio ar ddyfodol archwiliadau meddygol amddiffyn oedolion yng Nghymru, ac a fyddai’n manteisio ar ddysgu o ddatblygiadau mewn mannau eraill ac ar waith diogelu ehangach. Cytunodd y Bwrdd y byddai’n briodol cael cynrychiolaeth o’r Bwrdd Cenedlaethol.

**10. Adolygu’r rhaglen waith a chynllunio ar gyfer 26/27**

Bu’r Bwrdd yn trafod y gofyniad i gyhoeddi cynllun gwaith blynyddol a’r angen i osgoi ei gyhoeddi’n hwyr drwy sicrhau bod y gwaith drafftio a blaenoriaethu’n cael ei gwblhau mewn da bryd.

Cytunwyd y dylid paratoi “rhestr hir” wedi’i chydgrynhoi o flaenoriaethau posibl ochr yn ochr â’r rhaglen waith bresennol, er mwyn hybu trafodaeth strwythuredig yn y sesiwn ddatblygu nesaf. Gofynnodd y Cadeirydd i’r aelodau ddychwelyd unrhyw ychwanegiadau’n brydlon er mwyn galluogi’r broses grynhoi.

---

**Daeth y cyfarfod i ben**